# Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

# Gweithred Gyffredinol 11: Canllaw Technegol ar yr Amgylchedd Hanesyddol

Ebrill 2026



## Cynnwys

**1. Cyflwyniad** ........ 3

**2. Henebion Cofrestredig:** ........ 5

**2.1 Trwsio Creithiau Erydu Bach ar Henebion Cofrestredig ar dir wedi'i wella** .. 5

**2.2 Trwsio creithiau erydu bach ar henebion cofrestredig ar safleoedd a chynefinoedd dynodedig** ........ 6

**2.3 Torri a Thynnu prysgwydd ar Henebion Cofrestredig (caniateir hyn hefyd o fewn Parcdir Cofrestredig)** ........ 7

**3. Adeiladau Fferm Traddodiadol** ........ 9

**3.1 Mân waith pwyntio ac ail-osod:** ........ 9

**3.2 Nwyddau Dŵr Glaw (Gwteri a phibellau dŵr)** ........ 10

# 1. Cyflwyniad

Mae'r canllaw technegol hwn wedi'i baratoi fel canllaw ychwanegol i'ch helpu i wneud gwaith ar gyfer UA11 Haen Gyffredinol yr SFS: Yr Amgylchedd Hanesyddol.

Mae'r canllaw technegol hyn yn ymdrin yn benodol â Henebion Cofrestredig ac Adeiladau Traddodiadol; nid yw'n ymdrin â Pharciau a Gerddi Cofrestredig na Nodweddion yr Amgylchedd Hanesyddol.

Mae holl ofynion UA11: Yr Amgylchedd Hanesyddol yn cael eu disgrifio yn Adran J11 o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (2026): haen gyffredinol: llyfryn rheolau | LLYW.CYMRU

Bydd eich Map SFS ar eich cyfrif RPW Ar-lein yn dangos holl Nodweddion yr Amgylchedd Hanesyddol sy'n berthnasol i'r Weithred Gyffredinol hon. Ceir canllaw ar sut i ddefnyddio Map yr SFS ar wefan Llywodraeth Cymru Cynllun Ffermio Cynaliadwy: sut i ddefnyddio fy map Cynllun Ffermio Cynaliadwy | LLYW.CYMRU

Mae haen yr Amgylchedd Hanesyddol ar Fap yr SFS wedi'i chreu gan ddefnyddio gwybodaeth oddi wrth Cadw a Heneb. I gael rhagor o wybodaeth am y nodweddion hyn, bydd angen i chi siarad â'r awdurdod cymwys perthnasol.

Ar gyfer Henebion Cofrestredig a Pharciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig, cysylltwch â Cadw drwy ei wefan www.cadw.llyw.cymru neu drwy ei e-bostio ScheduledMonuments@gov.cymru
Ar gyfer Nodweddion yr Amgylchedd Hanesyddol (HEF) cysylltwch â Heneb trwy ei wefan www.heneb.org.uk neu drwy e-bostio her@heneb.org.uk
Ar gyfer Adeiladau Traddodiadol, dylech gysylltu'n uniongyrchol â Taliadau Gwledig Cymru.

Os cewch gadarnhad nad oes nodweddion ar eich daliad, gallwch ddangos hynny ar y Ffurflen Cais Sengl (SAF) wrth y cwestiwn am broblemau data heb eu datrys.

Bydd cyfle ichi hefyd nodi ar Ddangosfwrdd Cyffredinol yr SFS unwaith y byddwch wedi hawlio Haen Gyffredinol yr SFS, unrhyw nodweddion sydd ddim yn eich barn chi, yn bresennol.

Byddai angen caniatâd yr awdurdod perthnasol i ddiweddaru mapiau ac o'i gael, efallai y bydd angen peth amser i'r nodweddion gael eu tynnu oddi ar eich map SFS.

Cofiwch, gofyniad y Weithred Gyffredinol yw cynnal cyflwr presennol y nodwedd ac osgoi gwneud unrhyw ddifrod iddi. Gan ddibynnu ar y math o nodwedd, os oes unrhyw agwedd ar y gofynion rheoli na allwch ei bodloni, gallwch ofyn am gael llacio'r rheolau ar ffurflen Rhanddirymiad neu Ymholiadau'r SFS ar eich cyfrif RPW Ar-lein.

**Tenantiaethau**

Os ydych chi'n hawlio Haen Gyffredinol yr SFS ar dir tenant lle ceir Henebion Cofrestredig, Nodweddion yr Amgylchedd Hanesyddol, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig neu adeiladau fferm traddodiadol nad yw’r landlord wedi'u cynnwys yn y cytundeb tenantiaeth, ni fydd y gofynion yn gymwys i chi gan nad yw'r nodweddion hyn yn rhan o gytundeb eich tenantiaeth, ac nid oes gennych reolaeth drostynt.

Ond, os ydy'r landlord wedi cynnwys unrhyw rai o'r nodweddion hyn yn y cytundeb, bydd eich cyfrifoldeb amdanyn nhw wedi'i nodi yng nghymalau cynnal, trwsio a chyfnewid eich cytundeb tenantiaeth.

Ar gyfer tenantiaethau a ddaw o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986, efallai y bydd angen ichi gyfeirio hefyd at y cymalau trwsio enghreifftiol rheoleiddiol perthnasol yr ystyrir eu bod wedi'u hymgorffori yng nghytundeb eich tenantiaeth lle bo'r cytundeb tenantiaeth fel arall yn dawel neu'n anghyflawn mewn perthynas â rhwymedigaethau trwsio rhwng y landlord a'r tenant.

## 2. Henebion Cofrestredig:

Caiff henebion sydd o bwys cenedlaethol eu categoreiddio'n Henebion Cofrestredig. Mae'r gyfraith yn eu diogelu rhag difrod, rhag eu haflonyddu a rhag gwaith heb awdurdod o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), 2023 (ar legislation.gov.uk).

- Pwysig: Heblaw am dynnu prysgwydd a gwaith sylfaenol i drwsio erydiad, ni chewch wneud unrhyw waith ar Heneb Gofrestredig heb gydsyniad ysgrifenedig gan Cadw.

- Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gyngor arnoch ynglŷn â rheoli Henebion Cofrestredig ar eich tir, cysylltwch â Cadw - scheduled.monument@gov.wales.

- Wrth reoli Henebion Cofrestredig sydd hefyd wedi'u dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, rhaid cydymffurfio â Gweithred Gyffredinol 7: Cynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig, pan fydd wedi'i gymeradwyo. Byddwn yn holi Cadw am y cynlluniau rheoli a ddatblygir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

- Cyn mabwysiadu'ch cynllun rheoli, dilynwch y canllawiau priodol yn 2.1 (creithiau erydu), 2.2 (creithiau erydu ar gynefinoedd a safleoedd dynodedig) a 2.3 (torri a chodi prysg, gan gynnwys ar dir parc cofrestredig).

### 2.1 Trwsio Creithiau Erydu Bach ar Henebion Cofrestredig ar dir wedi'i wella

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

Mae adran 51(5)(a) o'r Ddeddf yn rhoi caniatâd i wneud gwaith mân, megis trwsio erydiad a rheoli prysgwydd ar Heneb Gofrestredig, cyn belled â bod y gwaith yn cael ei wneud yn unol â'r canllawiau a roddir gan Cadw.

Rhaid dilyn y canllawiau isod er mwyn i'r gwaith gydymffurfio â'r gyfraith:

Pwysig: Amod o'r caniatâd hwn yw bod yn rhaid tynnu ffotograffau cyn dechrau ar y gwaith ac ar ôl ei gwblhau. Anfonwch y ffotograffau hyn at Cadw drwy'r ddolen hon Helpwch Cadw i fonitro cyflwr henebion cofrestredig yng Nghymru | MapDataCymru neu e-bostiwch: scheduled.monumment@gov.cymru

Os caiff unrhyw arteffactau neu weddillion archeolegol eu datgelu, rhaid atal y gwaith ar y rhan honno o'r safle ar unwaith a chysylltu â Cadw am gyngor pellach.

- Bydd angen trwsio cloddwaith hanesyddol sydd wedi'i erydu gan dda byw trwy draul, stablad (sathru), eu llwybrau ac ati.

- Dylech lenwi'r darn sydd wedi'i erydu â phridd o dir y tu allan i'r ardal gofrestredig neu warchodedig a dylech ail-hau'r wyneb â chymysgedd priodol o hadau.

- O gofio mai diben y gwaith hwn yw trwsio creithiau erydu bach, ni ragwelir y bydd angen defnyddio peiriannau mecanyddol i'w gynnal. Dylai offer llaw (rhaw, berfau ac ati) fod yn ddigonol. Os oes angen peiriannau, cysylltwch â Cadw am gyngor cyn gwneud y gwaith.

- Gyda phantau bach, dewis arall yw eu llenwi â thyweirch cyfan o'r tu allan i'r ardal gofrestredig neu warchodedig, sy'n golygu na fydd angen ail-hau.

- Dylech gadw da byw o safle'r trwsio nes bod y llystyfiant wedi cydio a sefydlogi. Fel arall, lle mae defaid yn pori'r cae, gellir gosod weiar netin i amddiffyn y darn gafodd ei drwsio.

- Lle mae erydu'n digwydd wrth fan penodol, weithiau bydd angen dileu'r 'achos', er enghraifft mae coed drain gwynion/duon unigol neu leiniau bach ohonyn nhw yn aml yn cynnig cysgod wrth fannau bregus. Trwy gael gwared ar y coed a thrwsio olion yr erydu, ni ddylai'r broblem ddigwydd eto.

- Sylwer, wrth gael gwared ar goed, dylech adael y boncyff yn y tir rhag niweidio'r olion archeolegol oddi tano, er bod triniaeth gemegol o'r boncyff yn cael ei ganiatáu.

- Gall cafnau bwydo arwain at olion traul mawr ar arwynebau. Felly ni ddylech osod cafnau bwydo ar neu’n agos at Henebion Cofrestredig.

- Lle ceir mannau o dan bwysau mwy ar lwybrau, bydd angen trwsio'r darn sydd wedi'i ddifrodi ac yna agor y llwybr i fyny drwy glirio peth o'r llystyfiant o amgylch (prysgwydd, mieri, chwyn ac ati).

## 2.2 Trwsio creithiau erydu bach ar henebion cofrestredig ar safleoedd a chynefinoedd dynodedig

**Ar Safleoedd Dynodedig caniateir y canlynol:**

- Dylech gadw da byw o safle'r trwsio nes bod y llystyfiant wedi cydio a sefydlogi. Fel arall, lle mae defaid yn pori'r cae, gellir gosod weiar netin i amddiffyn y darn gafodd ei drwsio.

- I amddiffyn mannau dan bwysau, gofalwch fod eich cynllun rheoli'r safle dynodedig yn delio â hynny.

- Gall cafnau bwydo arwain at olion traul mawr ar arwynebau. Felly ni ddylech osod cafnau bwydo ar neu’n agos at Henebion Cofrestredig.

**Ar gynefinoedd y tu allan i Safleoedd Dynodedig, caniateir y canlynol hefyd:**

- Lle mae erydu'n digwydd wrth fan penodol, weithiau bydd angen dileu'r 'achos', er enghraifft mae coed drain gwynion/duon unigol neu leiniau bach ohonyn nhw yn aml yn cynnig cysgod wrth fannau bregus. Trwy gael gwared ar y coed a thrwsio olion yr erydu, ni ddylai'r broblem ddigwydd eto.

- Lle ceir mannau o dan bwysau mwy ar lwybrau, bydd angen trwsio'r darn sydd wedi'i ddifrodi ac yna agor y llwybr i fyny drwy glirio peth o'r llystyfiant o amgylch (prysgwydd, mieri, chwyn ac ati).

- Sylwer, wrth gael gwared ar goed, dylech adael y boncyff yn y tir rhag niweidio'r olion archeolegol oddi tano, er bod triniaeth gemegol o'r boncyff yn cael ei ganiatáu.

## 2.3 Torri a Thynnu prysgwydd ar Henebion Cofrestredig (caniateir hyn hefyd o fewn Parcdir Cofrestredig)

Dylid torri a thynnu prysgwydd ar Heneb Gofrestredig sydd hefyd wedi'i dynodi'n SoDdGA yn unol ag UA7: Cynllun Rheoli Safle Dynodedig. Byddwn yn holi Cadw am y cynlluniau rheoli a ddatblygir gan CNC.

- Mae nodweddion archeolegol fel cromlechi, caerau, pentrefi canoloesol neu hyd yn oed cloddiau terfyn syml yn aml yn cael eu cadw orau dan orchudd o borfa neu lystyfiant isel. Yr unig beth sydd ei angen i gynnal y gorchudd yw ei dorri'n ysgafn o dro i dro. Dylech sicrhau nad ydych yn aflonyddu ar y cloddwaith a'ch bod yn cadw gorchudd o borfa neu lystyfiant isel arno.

- Mae prysg yn cynnwys llwyni coediog a choed arloesol neu oportiwnistig fel drain gwynion, helyg, eithin neu fedw.

- Torrwch y prysg ar lefel y ddaear heb adael unrhyw fonion yn codi o'r tir. Neu gallwch gael gwared ag eginblanhigion bach drwy eu tynnu â llaw. Nid yw'n dderbyniol cael gwared â bonion mawr â pheiriant.

- Peidiwch â llosgi deunydd wedi'i dorri yn yr ardal gofrestredig, oni bai bod Cadw yn cytuno i hynny a rhaid cael caniatâd Cadw i losgi prysgwydd sy'n sefyll.

- Codwch ddeunydd sydd wedi'i dorri, a'i gludo oddi ar y safle oni bai bod Cadw Cymru wedi cytuno'n wahanol neu fod y gwaith yn cael ei wneud i reoli coetir. Dan yr amgylchiadau hynny, pentyrrwch y deunydd yn ofalus o dan y darnau o brysg sydd ar ôl a'i adael i bydru a rhoi lloches/cynefin i fywyd gwyllt.

- Er mwyn amddiffyn adar sy'n nythu, peidiwch â chlirio prysgwydd yn nhymor nythu'r adar 1 Mawrth - 31 Awst.  Rhaid ichi ofyn am gyngor CNC os yw rhywogaeth a warchodir, fel moch daear, yn debygol o fod bresennol.

**Defnyddio chwynladdwyr**

- Ar ôl eu torri, bydd nifer o rywogaethau'n ymateb drwy dyfu egin newydd yn hytrach na marw ar unwaith.  Gall y tyfiant hwn gael ei reoli drwy ei bori neu drwy ei dorri, ond efallai y bydd angen trin naill ai'r bonyn neu'r aildyfiant â chwynladdwr addas.

- Rhaid i label unrhyw gemegau sy'n cael eu defnyddio ddangos eu bod yn cael eu hargymell ar gyfer trin prysg (naill ai aildyfiant neu fonion wedi torri) a sut i wneud hynny.  Rhaid cadw at holl argymhellion y cynhyrchwyr sydd wedi'u nodi ar y label wrth ddefnyddio chwynladdwyr.

## 3. Adeiladau Fferm Traddodiadol

Fel arfer, adeiladwyd adeiladau fferm traddodiadol cyn 1919, gyda waliau solet a chan ddefnyddio deunyddiau lleol, gan gynnwys llechi, carreg neu bren. Maen nhw fel arfer yn ddiaddurn ac wedi'u hadeiladu at y diben ac mae gan lawer ohonynt y nodweddion allanol gwreiddiol o hyd.

Mae'r gofynion hyn yn berthnasol i adeiladau fferm traddodiadol cyfan yn unig. Rhaid cadw strwythurau ac adeiladau adfeiliedig neu weddilliol ond nid oes angen eu trwsio na'u cynnal a'u cadw.

Pwysig: Nid yw'r gofynion yn eich rhwystro rhag addasu neu drosi unrhyw adeilad fferm, ond eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod wedi cael pob cydsyniad a thrwydded gan yr awdurdodau perthnasol. Mae'r gofynion isod yn ymwneud â gwaith cynnal a chadw a thrwsio sylfaenol ac felly nid oes angen Cydsyniad Adeilad Rhestredig.

Rhaid cadw'r holl adeiladau traddodiadol ac olion strwythurau ar eich tir, waeth beth fo'u cyflwr, oni bai eu bod yn achosi perygl amlwg i iechyd a diogelwch.

Dylech wneud gwaith morter calch rhwng 1 Ebrill a 30 Medi er mwyn atal y rhew rhag difrodi'r morter newydd.

### 3.1 Mân waith pwyntio ac ail-osod:

Dylech ailosod cerrig rhydd unigol ac ail-wneud darnau bach o waith pwyntio a rendro sydd wedi'i golli, gan sicrhau bod y gwaith yn gweddu i'r morter calch neu'r rendrad sydd yno'n barod.

- Rhaid ail-bwyntio ac ail-osod gan ddefnyddio morter Calch Hydrolig Naturiol 3.5 (NHL). Dylai cryfder y cymysgedd morter calch gyfateb i gryfder y garreg ond fel rheol y fawd - ailbwyntiwch gan ddefnyddio cymysgedd morter calch o 1:2.5 (1 rhan o galch NHL i 2.5 rhan o dywod concrit bras wedi'i olchi - gyda'r lliw a maint yr agregau'n cyd-fynd â'r gwreiddiol).

- Wrth bwyntio'r wyneb a gwneud gwaith craidd, dylai weddu i wead, lliw a golwg yr hen waith.

- Dylid crafu'r cymalau i o leiaf ddyfnder o 40mm neu ddwywaith lled y cymal (pa un bynnag sydd fwyaf), er mwyn cael gwared ar yr holl faw, gwreiddiau a morter rhydd neu fâl.

- Yna dylech wlychu'r cymalau yn drylwyr cyn eu hail-bwyntio neu cyn ail-osod.

- Dylid pacio'r morter ym mhob cymal yn dynn gan sicrhau ei fod yn is na'r garreg a bod modd gweld ymylon y garreg. Ni ddylai fod yna fannau gwag na thyllau

neu graciau lle gall dŵr gasglu yn y gwaith pwyntio gorffenedig, gan y gall y dŵr hwnnw rewi ac ehangu mewn tywydd oer iawn a llacio'r cerrig.

- Dylech allu gweld yr agregau yn y morter rhwng y cerrig. Gellir gwneud hyn trwy frwsio'r morter newydd â brwsh caled ar ôl iddo ddechrau sychu. Mae hyn yn helpu hefyd i gryfhau'r cymal ac yn llenwi craciau mân a geir wrth iddo grebachu.

- Ni ddylech wneud gwaith pwyntio pan fydd yr agregau wedi rhewi neu pan fydd hi'n 5 gradd C neu is neu'n debygol o gwympo o dan 5 gradd cyn i'r morter galedu. Gosodwch orchudd addas wedi'i inswleiddio i amddiffyn gwaith trwsio yn y morter calch a phwyntio rhag oerfel.

- Cymerwch ofal i sicrhau nad yw'r gwaith pwyntio yn sychu'n rhy gyflym a rhaid cadw gwaith pwyntio newydd yn llaith mewn tywydd twym. Gellir gwneud hyn trwy osod matiau hesian gwlyb (neu eu tebyg) ar y darnau sydd newydd eu hail-bwyntio.

- Ar ôl gorffen ac os oes angen, defnyddiwch hylif glanhau pwrpasol i lanhau staen y morter oddi ar y cerrig.

- Dylai'r gwaith rendro weddu i'r gymysgedd, deunyddiau, gorffeniad, manylion a'r addurn traddodiadol. Rhaid osgoi gosod 'bell casts' wrth ffenestri, plinthiau ac ati.

- Dylech ddefnyddio'r cerrig gwreiddiol i lenwi bylchau. Os oes angen carreg ychwanegol neu newydd, dylai gyd-fynd â'r gwreiddiol.

- Rhaid i chi chwynnu llystyfiant newydd oddi ar waliau cyn iddo gael cyfle i gydio. Dylech roi chwynladdwr ar dyfiant goresgynnol na allwch ei dynnu â llaw heb ddifrodi gwaith cerrig neu waith pwyntio, drwy chwistrellu'r coesyn, a'i adael yn ei le i farw a chwympo i'r llawr.

- Dylech dynnu llystyfiant sy'n tyfu yn erbyn waliau allanol, lle na fyddai gwneud hynny'n gwanhau'r waliau sy'n weddill, a sicrhau nad yw pridd yn cronni wrth waelod waliau neu uwchlaw lefel rhwyllau awyru o dan y llawr neu frics aer. Archwiliwch sianeli a gylïau draenio am graciau ac uniadau agored, a'u selio os oes angen. Ni ddylech storio deunyddiau y tu allan i'r adeilad wrth y waliau.

## 3.2 Nwyddau Dŵr Glaw (Gwteri a phibellau dŵr)

- Dylai'r nwyddau dŵr glaw newydd fod wedi'u gwneud o haearn bwrw a chyfateb i'r traddodiadol o ran proffil, eu gosodiad ac ati, gan gynnwys bracedi pigog lle bo'n briodol.

- Dylech glirio unrhyw ddail a gweddillion o landeri, yn enwedig yn ystod yr hydref a'r gaeaf, gan gael darnau newydd yn lle rhai diffygiol neu wedi torri.

- Wrth ailosod pibellau dŵr, dylech osod darnau gwahanu pren y tu ôl i'r bracedau er mwyn gwella'r awyriad a gallu cael ato i ailaddurno. Os oes rhai, sicrhewch fod rhwyllau a gorchuddion yn eu lle. Defnyddiwch rodenni i glirio draeniau os oes angen.
- Nid yw pob adeilad fferm traddodiadol yn addas ar gyfer cafnau, ac efallai nad oes angen eu gosod. Lle byddwch yn eu cyflwyno, gofynnwch i Lywodraeth Cymru am ei chaniatâd yn gyntaf.